Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn

Bydd yr Eisteddfod yn cael ei gynnal yn Neuadd yr Ysgol ar Hydref 5ed.
Mae'r Eisteddfod yn dechrau am 11am.  Mae'r plant wedi bod yn ymarfer yn yr Ysgol.
Y Meithrin a Derbyn a fydd yn cystadlu gyntaf.
Yn dilyn diwedd eu cystadlu nhw bydd blwyddyn 1 a 2 ac yn y blaen.  Ni does posib rhoi amser ond fe wnawn roi amcangyfrif yn nes at yr amser.

Mae cyfle os ydy eich plentyn eisiau gystadlu gyda offeryn cerdd.  Rwy'n gwybod bod rhai ohonoch wedi cysylltu i ofyn sut i wneud hyn.

- Gadewch i'r Ysgol wybod a fe wnawn ni roi eich enw i'r pwyllgor.
- Bydd rhaid rhoi copi o'r darn i'r beirniad. I wneud hyn gyrrwch y copi i'r Ysgol a fe wnawn ni ei lungopio a'i roi i'r beirniad.
- Dewch i'r Eisteddfod a cystadlwch

Pob Lwc 😉

Mynediad: Oedolyn £3 Plant Ysgol am Ddim

Gweithgareddau Gwaith Cartref
Os hoffech gystadlu gyda'r gwaith cartref sicrhewch bod eich gwaith wedi cyrraedd yr Ysgol erbyn 3/10/2024

Arlunio ar thema Arwr  (pensil, pensiliau lliw, siarcol, peintio ac yn y blaen)

Creadigol ar thema Anifail (collage, mosaic, unrhyw waith aml-gyfrwng)

Rhowch Ffug Enw a Blwyddyn Ysgol ar gefn y darn o waith.  Peidiwch a rhoi unrhyw ysgrifen Saesneg ar y darn o waith.

Diolch